Haf 1993 30c

# Heddwch

cylchgrawn CND Cymru




Ffoto: Les Skeates, Open Image

■ CND Cymru yn sillafu'r neges yn glir y tu allan i'r SAA, Llanisien, Caerdydd ar 7fed Mehefin.

## Y diweddaraf ar wahardd profion

Daeth moratoriwm yr UD ar brofion arfau niwclear i ben yn dechnegol ar Orffennaf 1 ac wrth i ni fynd i'r wasg, mae'r Arlywydd Clinton am ei adnewyddu am flwyddyn arall o leiaf, diolch byth. (Fodd bynnag, paratowyd safle Nevada eisoes ar gyfer mwy o brofion tanddaearol.)

Gyda Rwsia a Ffrainc wedi datgan nad hwy fydd y cyntaf i ailgychwyn profion arfau niwclear, mae dyfodol profion arfau niwclear bellach yn dibynnu ar oruchwyliaeth Clinton. Mae'r llywodraeth Brydeinig, wrth gefnogi profion, wedi ei hynysu'n llwyr unwaith eto. Bu awgrym, hyd yn oed, y gallai Prydain ofyn i Ffrainc am ganiatad i wneud profion diweddaru taflegrau Trident yn y Môr Tawel!

Bu pwysau ar yr Arlywydd Clinton i ailgychwyn profion arfau niwclear o dri chyfeiriad:

- sefydliad milwrol yr Unol Daleithau
- y labordai arfau niwclear
- y llywodraeth Brydeinig

Ni allwn wneud llawer ynglŷn â'r ddau gyntaf ond, yn amlwg, mae'n ddyletswydd arnom i wneud rhywbeth ynglŷn â'r trydydd!


### Beth allwn ni ei wneud

1. Daliwch ati i gasglu enwau ar y DDEISEB a geid yn rhifyn diwethaf Newyddion Gweithredu Heddwch, da chi. Gan na wnaed unrhyw brofion hyd yn hyn eleni, estynnwyd y dyddiad cau tan 5ed Tachwedd 1993. Os ydych wedi llenwi (neu golli!) eich copi chi, cysyllter â Jill Stallard, Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Dyfed SA20 0LR. Tel: 05505 260.
2. Os carech ragor o wybodaeth am brofion arfau niwclear, danfonwch amlen fawr wedi ei chyfeirio atoch chi eich hun yn dwyn 4 stamp 18 ceiniog at Brian Jones, 72 Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe SA8 3AN. (Noder Cymraeg neu Saesneg.)
3. Yn yr hydref, gobeithiwn weld 'profion niwclear lleol' ledled Cymru! Bydd CND Cymru'n cynhyrchu defnyddiau, gan gynnwys taflen yn dwyn pum cwestiwn aml-ddewis, syml fel ffordd o hysbysu'r cyhoedd ynglŷn â'r profion – a mor hawdd fyddai hi i roi terfyn arnynt yn barhaol. Yr hyn fydd ei angen fydd gwirfoddolwyr sy'n fodlon aberthu awr neu ddwy i ddosbarthu'r taflenni hyn. Wyddoch chi byth, efallai bod rhywun arall eisoes yn trefnu hyn yn eich ardal chi, a byddent yn croesawu eich cymorth!

*Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw*

# Y Sefydliad Arfau Atomig, Caerdydd: bwyd poeth parod i fynd?

Mae'r SAA, Ffatri'r Ordnans Brenhinol gynt, wedi bod yn Llanisien, un o faestrefi Caerdydd, er 1939. Rhwng 1958 a 1960 addaswyd y ffatri at waith gydag wraniwm hesb a beryliwm, a'i throi'n un o dri gwaith yn cynhyrchu cyfansoddrannau ar gyfer arfau niwclear Prydeinig.



■ *Cefn y SAA, Caerdydd.*

*Dyma sydd ar yr arwydd hwn, y tu cefn i AWE a ger archfarchnad Safeways yn Llanisien:*
***'This compound contains depleted uranium swarf and depleted uranium contaminated materials. Authorised entry only. Contact HPT to enter'.***

Ers 35 mlynedd mae'r SAA wedi bod yn gollwng wraniwm hesb neu naturiol, beryliwm a nifer o ddefnyddiau gwenwynllyd eraill i'r awyr ac i mewn i garthffosydd y ddinas.

Bydd gwastraff wramiwm yn cronni ar y safle yn yr awyr agored cyn cael ei ddanfon i Drigg yn Cumbria. Ail-brosesir y rhan fwyaf o'r gwastraff beryliwm ar y safle. Mae gan y SAA drwydded i storio hyd at 50 kg o wraniwm naturiol a/neu hesb ar y safle, a bydd yn derbyn mwy na 1000 kg o feryliwm bob blwyddyn.

Nid yw record ddiogelwch SAA Caerdydd yn hysbys. Ni bu ymchwiliad cyhoeddus erioed i unrhyw agwedd ar weithrediad y safle. Mae clogyn o gyfrinachedd amdano.

Fel yr adroddwyd mewn rhifynnau blaenorol, mae ffactor newydd yn yr hafaliad diogelwch erbyn hyn. Ar y 1af Ebrill 1993, contracteiddiwyd y SAAau. Y cwmni preifat sydd bellach yn rhedeg y gweithfeydd yw Hunting BRAE, consortiwm o dri chwmni – Hunting ccc, AEA Technology, a Brown & Root.

Bu Greenpeace yn ymchwilio i record flaenorol y cwmniau hyn. Nid oes gan Hunting ccc, er bod y cwmni'n gontractwr arfau o bwys, unrhyw brofiad blaenorol o redeg neu weithredu unrhyw safle niwclear. Awdurdod Ynni Atomig y DU oedd AEA Technology gynt, y corff a arferai redeg SAA Aldermaston tan 1973, ac a oedd hefyd yn gyfrifol am y tân difrifol yn Windscale ym 1957 (er enghraifft).

Cafodd Brown & Root y rhan fwyaf o'i wybodaeth niwclear yn yr Unol Daleithau drwy ddylunio ac adeiladu o leiaf ddwy orsaf ynni niwclear yn Tecsas.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gan Greenpeace ar Brown & Root yn dangos yn eglur bod gan y cwmni record warthus ar iechyd, diogelwch, rheolaeth ac arfer cyflogaeth, fel y dangoswyd ar raglen Panorama'r BBC ym mis Mehefin 1993.

Agwedd arall ar gontractieddio sy'n peri pryder yw'r ffaith yr ymddengys na ellir erlyn Hunting BRAE o dan unrhyw ddeddfwriaeth ar yr amgylchedd, llygredd neu iechyd a diogelwch.

Mae caniatau i gwmni â record warthus ar faterion iechyd a diogelwch i redeg ffatrioedd sy'n gweithio gyda rhai o'r defnyddiau mwyaf marwol ar y blaned hon heb ddim rheolaeth gan neb y tu allan i'r ffatri yn ymylu ar wallgofrwydd, yn fy marn i.


Nid oes unrhyw ffordd ddiogel o gynhyrchu bomiau niwclear. Mae'r holl broses yn golygu gollwng defnyddiau ymbelydrol a gwenwynllyd i'r amgylchedd a chynhyrchu a chrynhoi pentyrau anferth o wastraff peryglus.

Mae angen rhagor o wybodaeth am y safle, er enghraifft, pa mor fynych y cludir defnyddiau ymbelydrol a gwenwynllyd i mewn ac allan, a'r peryglon pe bai damwain.

Dylid cau SAA Caerdydd, ynghyd â'r SAAau eraill, a chyfeirio eu hegnion at reoli'r etifeddiaeth farwol sydd wedi crynhoi ar y safle ers 40 mlynedd a mwy.

*William Peden, Greenpeace*

# Ynni niwclear ac arfau niwclear – y cysylltiadau




"Nid oes unrhyw gysylltiad o fath yn y byd" rhwng ynni niwclear ac arfau niwclear yw ateb safonol corff masnach y diwydiant, Nuclear Forum, pan ofynnir iddo am y cysylltiadau. Mae hwn yn ateb ffuantus fel y dengys unrhyw astudiaeth o'r diwydiant niwclear a'i hanes yn fuan iawn.

Mae'r cysylltiadau, mewn gwirionedd, yn seicolegol, yn hanesyddol, ac yn ffeithiol. Yn seicolegol, y tro cyntaf y gwnaed y cyhoedd yn ymwybodol o bwer dychrynllyd ynni niwclear oedd ar ôl bomio Hiroshima a Nagasaki. Yn hanesyddol, adeiladwyd adweithyddion niwclear cyntaf y DU, yr UD, yr hen Undeb Sofietaidd, Ffrainc a Tsieina nid i gynhyrchu trydan ond i gynhyrchu plwtoniwm ar gyfer bomiau. Yn ffeithiol, nid yw hi'n bosib gweithredu unrhyw adweithydd niwclear heb ddefnyddio neu gynhyrchu ar yr un pryd ddefnyddiau y gellid eu defnyddio mewn arfau niwclear.

Ni bu cyrff swyddogol yn y gorffennol mor anwireddus â Nuclear Forum heddiw. Ym 1946, dadleuai adroddiad Adran Wladol yr UD oni sefydlid awdurdod byd-eang i achub y blaen ar dwf rhaglenni niwclear mae para i amlhau a wnai arfau niwclear oblegid "mae datblygu ynni atomig i ddibenion heddychol ac . . . ar gyfer bomiau i raddau helaeth yn gyd-ddibynnol".

Yn y DU, dengys ffig. 1 a gymerwyd o un o gyhoeddiadau swyddogol HMSO (1954) y gyd-ddibyniaeth hon yn eglur. Mae'r ffatrioedd mewn gwawr dywyll – Springfields, Capenhurst a Windscale (Sellafield bellach) – yn dal yn ganolog i raglenni ynni ac arfau niwclear y DU y dydd heddiw. Serch hynny, pan agorodd y Frenhines Calder Hall yn Windscale ym mis Hydref 1956, hawliwyd mai hon oedd gorsaf ynni niwclear gyntaf y byd er mai ei phrif ddiben oedd cynhyrchu plwtoniwm ar gyfer arfau milwrol. Dechreuwyd gweithredu Chapelcross, Dumfries, cynhyrchydd plwtoniwm milwrol arall a gynhyrchai drydan fel 'bonws', ym 1959.

Yn y cyfamser, cychwynasai'r llywodraeth ar y cynllun adweithyddion Magnox yn seiliedig ar ddyluniad Calder Hall. Ym 1958, gofynnodd i'r Bwrdd Trydan (BCTC) i addasu dyluniad tair gorsaf ynni fel y gellid sicrhau plwtoniwm graddfa arfau. Dim ond Hinkley Point a addaswyd yn y modd hwnnw yn y pen draw. Gweithiwyd allan iddi gynhyrchu llawer mwy o blwtoniwm nag a ddisgwylid o ganlyniad i weithredu sifil normal ym 1968-9.

Dichon y defnyddiwyd Trawsfynydd i gynhyrchu plwtoniwm arfau hefyd. Mae'n well gan yr awdurdodau milwrol blwtoniwm a dynnir o adweithydd ar ôl uchafswm o ddwy flynedd o losgi, fel ei fod yn dal yn gofoethog mewn PU 239. Er mwyn cynhyrchu trydan yn economaidd, fodd bynnag, gwell gadael y tanwydd yn yr adweithydd am hyd at bum mlynedd. Yn y 1960au diweddar, newidiwyd holl danwydd Trawsfynydd ar gyfradd o 50% y flwyddyn, sydd yn awgrymu defnydd milwrol.

Daeth rhagor o dystiolaeth i olau dydd yn Ymchwiliad Sizewell B yn y 1980au cynnar. Ar y pryd, y gair swyddogol oedd na ddefnyddiwyd unrhyw blwtoniwm a gynhyrchwyd mewn adweithyddion sifil mewn unrhyw raglenni milwrol erioed, naill ai yn y DU neu unrhywle arall. Cyflwynodd CND dystiolaeth a oedd yn cynnwys geiriau'r Arglwydd Hinton, cyn Gadeirydd y BCTC, a ddisgrifiai hyn fel "blydi celwyddau", gan ddweud ei bod yn hysbys iddo ef bod plwtoniwm o adweithyddion Berkley a Bradwell wedi ei ddanfon i'r UD. Amcangyfrifodd CND hefyd bod o leiaf bedair ac o bosib cymaint â saith tunnell fetrig o blwtonoiwm wedi ei allforio o adweithyddion sifil y DU i'r UD o dan Gyd-Gytundeb Amddiffyn 1958. (Yn gyfnewid am y plwtoniwm, danfonodd yr UD gyflenwad o wraniwm wedi ei gyfoethogi'n fawr a tritiwm i'r DU, lle defnyddid y naill mewn adweithyddion gyrru llongau tanfor a'r llall mewn bomiau thermoniwclear.

Syfrdanodd BNFL yr Ymchwiliad wedyn drwy gyfaddef bod ei ddiffiniad o blwtoniwm 'milwrol' a 'sifil' yn wahanol i'r hyn a dybid, ac nad oedd yn cyfeirio at darddiad y plwtoniwm ond ei ddefnydd wedi ei ail-brosesu. Cyd-brosesir gwialenni o adweithyddion sifil a milwrol gyda'i gilydd yn Sellafield a gellid eu cyfnewid. Yn y man, ym mis Mawrth 1986, cyfaddefodd Walter Marshall, Cadeirydd y BCTC, fod plwtoniwm o adweithyddion sifil yn y blynyddoedd cynnar wedi mynd i'r gronfa filwrol. Ychydig wythnosau'n ddiweddarach newidiodd Mrs Thatcher yr ymateb swyddogol i ddweud na ddefnyddiwyd unrhyw blwtoniwm o adweithyddion sifil i ddibenion milwrol "yn ystod cyfnod y llywodraeth hon". Ni allai 'ateb dros oruchwyliaethau cynharach".

Mae'r cipolwg hwn ar rai agweddau o'r diwydiant niwclear yn y DU yn arddangos yn glir y cysylltiadau rhwng ynni niwclear ac arfau niwclear. Ceir cronfa o fwy na 30,000 kg o blwtoniwm o adweithyddion ynni niwclear y DU yn Sellafield. Mynna llywodraeth y DU ar ei hawl gyfreithiol o dan y Cytundeb Atal Lledaenu i gyfeirio plwtoniwm sifil i ddibenion milwrol, heb unrhyw fesurau amddiffynnol, pe dymunai wneud hynny. Mae 10kg o blwtoniwm yn ddigon i gynhyrchu arf niwclear.

Ar lwyfan ehangach, bydd gan unrhyw wlad sydd wedi datblygu ynni niwclear y staff hyfforddedig, y dechnoleg a'r sailstrwythur i sicrhau mai dim ond cam byr fydd oddi yno i dechnoleg arfau niwclear. Mae rhaglen ynni niwclear yn rhagdybio bodolaeth, ar ryw ffurf, defnyddiau y gellir eu defnyddio mewn bomiau. Felly, ym 1981, dinistriodd Israel adweithydd Osirak yn Iraq ychydig cyn ei gwblhau am ei bod yn ofni y byddai'n cynhyrchu plwtoniwm ar gyfer arfau. (Fel sydd wedi dod yn amlwg er diwedd Rhyfel y Gwlff, nid ataliodd hynny Iraq rhag defnyddio dulliau eraill, cêl yn fynych iawn, o sicrhau technoleg niwclear i gynorthwyo ei rhaglen arfau.)

Yn yr un modd, ym 1974, ffrwydrodd India ddyfais niwclear "heddychlon" gan ddefnyddio plwtoniwm (o adweithydd ymchwil) a ailbroseswyd yng ngwaith Tarapur a adeiladwyd ar gyfer ei diwydiant niwclear. Ymatebodd Pakistan ar unwaith. Dechreuodd sicrhau drwy ddulliau cyfreithiol a chêl, y dechnoleg angenrheidiol fel y gallai'r Cadfridog Zia, erbyn Mawrth 1987, ddweud, "Gall Pakistan adeiladu bom bryd bynnag y mynn. Wedi sicrhau'r dechnoleg . . . gellwch wneud beth a fynnoch. Gellwch ei ddenyddio i ddibenion heddychlon yn unig. Gellwch hefyd ei ddefnyddio i ddibenion milwrol."

Yn y cyfamser, mae'r UD wedi llwyddo i ffrwydro o leiaf ddwy ddyfais yn defnyddio plwtoniwm graddfa adweithydd, ac yn Ffrainc, rhoed y gorau i esgus bod unrhyw wahanfur rhwng pwer niwclear sifil a milwrol. Ym 1984, caeodd Ffrainc ei hadweithydd penodol filwrol olaf, a bwriada ddibynnu ar y Bridydd Cyflym Superphenix o hyn ymlaen i gynhyrchu trydan a phlwtoniwm o safon uchel ar gyfer bomiau.

Mewn gair, mae cysylltiad cynhenid rhwng ynni niwclear ac arfau niwclear ac mae'n amhosib eu gwahanu.

*Dave Andrews*

Produced by Pia 0222 222782. Printed by Fingerprints (TU) 0222 482582

# Freedom Of The Skies / Rhyddid Yr Awyr

Mae **Rhyddid yr Awyr** yn gweithio o blaid cytundeb rhyngwladol i wahardd pob hedfan isel milwrol dros gymunedau cefn gwlad. Fel rhan o'r ymgyrch, rydym yn casglu deunydd ar gyfer blodeugerdd o gerddi rhyddiaith a lluniau ynglŷn ag effeithiau hedfan usel. Mae'r gwaith a ddaeth i law hyd yma yn lleisio'r dicter, y dryswch a'r ofn a deimlir gan gymaint o bobl pan fydd yr awyrennau'n hedfan drostynt – gan gyfleu'r profiad yn uniongyrchol i'r rheini sy'n byw y tu allan i barthau'r hedfan isel ac na fyddai'n ei chael hi'n hawdd deall ein teimladau fel arall. Os carech gyfrannu, cysylltwch â mi am wybodaeth bellach neu danfonwch eich gwaith yn syth at: *Maggie Chudley, Pistyllgwyn, Abergorlech, Caerfyrddin, Dyfed SA32 7BH. Tel. 0267 202388. Diolch.*

## FORMATION FLYING AUTUMN 1990

**Swifts with us all summer long;
a pair of them, looping, wheeling,
skimmed the edge of consciousness,**

**their screams as scarce perceived
as swaying trees, familiar shimmy of
fish,
stream's background conversation.**

**How gracefully that precision pair
in display formation, dipped and circled
their joyous laps around our lives.**

**Now autumn menaces. Mist hangs
like mustard gas over military tents
of spiders bivouaced in grass,**

**the valley never quieter
than that second before a thunderclap
detonates its terror**

**and a Tornado, blinking red,
streaks below the hill, banks,
then turns behind the tree-line,**

**its pilot almost palpable,
male, young, aroused
by this deadly foreplay.**

**Skin shrinks from flesh.
In nerve-jangle, heart-lurch
we wait for the second one pat on his
tail.**

**Clouds muster in the east. Uneasy,
we watch, high up, two vapour trails
scrawl threats across a darkening
sky.**

*Anne Grimes*

## TO WHOM IT MAY CONCERN

**Faceless
your presence sinisters,
pervades my home,
jack-boxes my space.**

**Silence explodes;
as with the stealth
of a panther,
and grace of a
hippopotamus,**

**you scalp trees and stall,
billow a trail
of black,
an incense offering
for ruptured membranes,
aborted lambs.**

**Sunlit targets float
on dolphin territory
where seals dive,
and bullseye practice**

**'near misses'
ricochet the unawares.**

*Jean Holloway*

## WAR ZONE: PENRALLT

**From this low room, a dairy once,
there's no internal door. She sits
separate, watches the sky for numbers.**

**Penrallt, clutched to the valley's rim,
tenses to each shriek, each wide-
winged
swoop of metal. A previous inmate**

**hanged himself from that hook
above her head. Its shadow
curls her scalp, grows large**

**as mould against the wall. She can
understand it. Her husband claims
it's just obsession. She knits**

**him balaclavas to deny the cold;
sees him wave to planes, blackhooded
as a terrorist. Complaint is justified,**

**she feels, by numbers in a notebook.
She can summon calm voices to say
they're're not to blame. Her children**

**scatter, flung flat by fear,
and, as he slams the door to leave,
her sky is filled with screaming.**

*Julie Rainsbury*

## NO HANDS

**War-planes have been at
it all day long
shaking the world,
strung air
humming like pianos
when children bang the
keys**

**over and over; willow
warbler song
and jet planes; lads high
on speed up there
in a mindless thrum;
down here a brake of
trees**

**churns to a rolling wave
and there's no let
in the after-quiver along
air-waves struck
by silly boys who think
they strum guitars,**

**who skim the fields like
surfboards over crests
of hedges, where a
tractor swims in a
green wake
of grass dust tossed to
dry under sun and
stars:**

**boy scaring boy off the
face of his own land,
all do and dare, and look
at me, no hands.**

*Gillian Clarke*

## NIGHT FLYING

**We fall to earth like children playing
war.
Low-flying jets by night,
their roar out of dark breaks sleep.
Attack comes from behind, blindfolding
us.
It's not like playing but remembering
war,
crouching under the stairs for the all-
clear.**

**They see through our uncurtained
windows
as we turn to each other in the dark.
They search the fields with their night
eye
for creatures crossing no-man's-land,
a sniper on a branch, a hare
with the moon in its eye, a terrorist
taking the ditch way home, white faces
at windows of lonely farms.**

**Who knows what outrages we'd be
plotting
in bedroom and burrow and hollow oak,
what subterfuge we'd be dreaming,
what outbreak
of peace, what tender subversions as
we cry
in each other's arms at such an outrage
as their shadows cross the moonlit
garden,
quartering the privacy of dreams.**

*Gillian Clarke*

---

**Arddangosfa o Gelfyddydau Menywod**
yn y Neuadd Fawr, Doc Albert, Lerpwl o'r 16eg i'r 29ain Medi.
Gweithdai dilynnol o'r 2il i'r 7fed Tachwedd.
Mae arddangiosfa aml-gyfrwng o waith menywod yn cael ei chynnull gan grŵp o fenywod yn Lerpwl. Gobeithiwn ddangos gweithiau o bedwar ban y byd, yn adlewyrchu sut mae menywod yn teimlo am y brwydrau a'r gwrthdaro sydd wedi ffrwydro o'u cwmpas yn yr hanner can mlynedd diwethaf. Mae hyn yn cynnig cyfle cyfartal i bob menyw, a chroesewir gweithiau, cymorth neu gyfraniadau (sieciau'n daladwy i 'Women Remember'). Carwn glywed hefyd gan unrhyw grŵp a allai fod â diddordeb mewn arddangos yr Arddangosfa neu unrhyw ran ohoni yn eu hardaloedd eu hunain ar ôl mis Medi 1993. Cysyllter ag: *Ysgrifennydd 'Women Remember', Cleo Wright, 15 Greenheys Road, Lerpwl L8 0SX. Tel: (051) 727 6025.*


# Heddwch yn y Cwm

## Cyfarfod Blynyddol CND Cymru 1993

Thema cyfarfod eleni oedd "Gobaith mewn Byd Cyfnewidiol". Roedd digon o obaith ac optimistiaeth yn Neuadd Les y Glowyr, Ystradgynlais ar Fehefin 19eg. Cafodd adroddiadau gan ei Hysgrifennydd Cyffredinol, Jill Stallard, y Trysorydd, Jean Bryant, a'r Swyddog Masnachu, Jan Henderson dderbyniad cynnes, ac ennyn cryn ddiddordeb. Diolchwyd i'n swyddogion etholedig a phenodedig, yn enwedig y ddau is-gadeirydd a oedd yn ymddeol, Brian Jones ac Ann Hall. Etholwyd y swyddogion a ganlyn: Cadeirydd, David Morris ASE; Trysorydd, Jean Bryant; Is Gadeiryddion: Gogledd Cymru, Dave Andrews; De Cymru, Ray Davies; Canolbarth, Medi James, Ian Campbell, Rod Stallard.

Cyflwynodd Ysgrifennydd Cyffredinol CND Prydeinig anerchiad realistaidd ond ysbrydoledig. Dywedodd wrthym y gallwn newid y rhan a chwery Prydain mewn materion rhyngwladol. Yn y prynhawn, rhedodd y tri siaradwr gwâdd weithdai anffurfiol: Anne Harrison a oedd wedi treulio amser yn UDA yn ymgyrchu yn erbyn profion niwclear; Peter Hain, a archwiliodd y byd cyfnewidiol a sut y gellid ei weddnewid o blaid heddwch, a William Peden, ymgynghorydd i Greenpeace, a arweiniodd weithdy ar y SAA yn Llanisien, Caerdydd lle gwneir casys taflegrau Trident.

Erbyn diwedd y prynhawn teimlem oll yn ddoethach ag yn fwy ymrwymedig. Bwriedid danfon llythyron cefnogol at Genedl y Shoshone y llygrwyd eu tiroedd yn Nevada gan Brofion Niwclear Prydain ac UDA, ac at Mordechai Vananu, newyddiadurwr sydd yn y carchar am ddweud y gwir am y diwydiant niwclear yn Israel. Penderfynwyd casglu gwybodaeth am weithgareddau




Ffoto: Bob Wakefield, Open Image

yn SAA Lanisien a dweud wrth bobl am beryglon ac anfoesoldeb y ffatri. Pe bai'r ffatri yn Llanisien yn rhoi'r gorau i gynhyrchu, ni ellid defnyddio'r safle i'r un diben arall am ei fod wedi ei halogi i'r fath raddau.

Os nad oeddech chi yn Ystradgynlais ar Fehefin 19eg, pam nad ymrwymwch yn awr i ddod i'r Cyfarfod Blynyddol y flwyddyn nesaf!

# Y ddadl sylfaenol

Pwysleisir y Ddadl Sylfaenol dros CND Cymru mewn ymgyrch a fydd yn cychwyn ym mis Medi- cynhelir arddangosfeydd ym mhob sir – a bydd taflenni newydd ar gael ar gyfer ymgyrchu ar y stryd.

Dywed yr ymgyrch, yn syml iawn, cyhyd ag y ceidw Prydain arfau Trident, cyhyd ag y bydd Prydain yn unig yn mynnu parhau am gyfnod amhenodol â phrofion niwclear, yna mae CND yn dal i fod yn hanfodol a bydd yn dal i weithredu. Byddwn yn annog pobl i ddod i ymuno â ni a rhannu ein gobaith mewn byd cyfnewidiol.

*Am wybodaeth bellach, cysyllter â Mary Jones: 0792 774687*


**Paul Donovan Adeiladwyr**

**Estyniadau • Plymio • Toi**
**Ffenestri UPVC ac ati**

Contactwr ar gyfer holl waith adnewyddu'r Siop Heddwch (a gwblhawyd yn llwyddiannus)
"Wentworth", Bradford Place, Penarth, De Morgannwg
Teleffone 0222 709946

**Dymuniadau gorau i'r Siop Heddwch**


## Adolygiadau llyfrau

### *Maisie and me: A Country Childhood in the 1920s* gan Stella Ashton.

(Gwasg Ex Libris, £3.95, ar gael yn y Siop Heddwch, Mackintosh Place, Caerdydd)

Mewn byd sy'n newid mor gyflym, mae'n bwysig elwa ar atgofion pobl hŷn er mwyn cadw ymdeimlad o fywyd di-dor. Dyna'r hyn a ysgogodd atgofion hyfryd Stella Ashton am ei bywyd cynnar yng nghefn gwlad Wiltshire. Mae wedi ysgrifennu cyfres o ddarluniau byw o fywyd cefn gwlad yn y 1920, dan reolaeth y tymhorau ac wedi ei fywiogi gan gymeriadau lleol. Mae ei disgrifiadau o ddyddiau ysgol yn neilltuol o ddiddorol, ei phranciau hi a'i chwarer ac ambell drasiedi a fyddai'n taro'r gymdeithas o bryd i'w gilydd. Mae wedi crisialu eglurdeb a diffyg sentimentalrwydd plentyndod, ac mae'r darluniau dymunol yn atgyfnerthu'r argraff hon.

Bu farw Stella, aelod o CND Llanisien ers blynyddoedd, yn yr hydref. Ni chaiff llawer o deuluoedd gyfle i ddarllen ac ailddarllen y fath atgofion, ond mwynheir y llyfr hwn gan unrhywun sy'n ymddiddori yn y gorffennol diweddar.

*Judith Anderson*

### *Undiscovered Ends* gan Bruce Kent

(Harper Collins, £15.99)

Yn naturiol, bydd aelodau CND yn gyfarwydd â rhan allweddol Bruce Kent yn adfywiad CND yn y 1980au, a denir llawer ohonynt gan y llyfr hwn, i gael gwybod mwy amdano. Ni chânt eu siomi. Dichon mai agwedd fwyaf diddorol yr hunangofiant hwn yw troeon annisgwyl yr yrfa, drwy'r brifysgol, yr offeiriadaeth, CND, gwleidyddiaeth a phriodi. Mae Bruce Kent yn disgrifio'r camau gwahanol hyn â chryn onestrwydd a hiwmor. Yr argraff a edy'r llyfr yw rhywun sydd yn dysgu beunydd o brofiad ac sy'n barod i newid ei feddwl a symud ymlaen er gwaethaf unrhyw chwalfa bersonol a bair hynny. Mae hon yn gyfrol a fydd yn atgoffa llawer o'i darllenwyr am frwydrau diweddar a ymladdwyd (ac a enillwyd?) yn ogystal â chynnig mewnwelediad i beth sy'n arwain rhywun i mewn i fywyd cyhoeddus.

*Judith Anderson*

## Menywod ar y ffordd dros Heddwch

Am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, bydd menywod yn teithio o gwmpas yn ymweld â chanolfannau niwclear â milwrol ledled Prydain, a galw i mewn i gefnogi Gwersylloedd Heddwch Menywod.

Thema taith eleni fydd symud defnyddiau niwclear ar ein ffyrdd a pheryglon hynny, a bydd yn cychwyn o'r Glwyd Las yn Greenham ddydd Sadwrn 24ain Gorffennaf. Bydd y menywod yn mynd ymlaen i Burghfield sydd yn danfon defnyddiau peryglus yn rheolaidd i Sellafield. Bydd y daith yn Nhrawsfynydd ar y 12fed Awst, Breudeth ar y 14eg ac yn cyrraedd Llanisien, Caerdydd ddydd Mawrth 17eg Awst, pan fyddant yn croesawu unrhyw gefnogaeth fydd ar gael. Maent yn bryderus braidd wedi'r driniaeth arw a gawsant y tro diwetha roeddynt yma, ac am ryw reswm mae'r syniad o 'fenywod Greenham' yn taro arswyd yng nghalonnau'r heddlu lleol!

Ymunwch â'r daith, da chi, os medrwch a dywedwch wrth fenywod eraill. Bydd y rheini sy'n cymryd rhan yn talu eu costau eu hunain, ond mae angen cefnogaeth ychwanegol i dalu am betrol ac ati. Dylid danfon at: ***Women on the Road for Peace, 51 Lower Ashley Rd., St Agnes, Bryste. Ymholiadau i Margery: 0222 753961.***




## Dydd Hiroshima, 6ed Awst 1993

### Eisteddfod Genedlaethol, Llanfair ym Muallt

Er coffau trasiedi Hiroshima at y 6ed o Awst 1945, bydd CND Cymru, ar y cyd â Chymdeithas y Cymod, yn trefnu gweithred ar y Maes ar gyfer pawb sy'n cefnogi heddwch byd-eang.

Bydd y weithred yn cysylltu'r gyflafan hyll yn Hiroshima a Nagasaki, y bywydau sydd yn dal i gael eu colli oherwydd profion niwclear a'r cynnydd mewn arfau niwclear, â gweithgaredd cynyddol y sefydliad milwrol ym mhedwar ban y byd, ac yn enwedig, ar garreg ein drws, Mynydd Epynt.

Ar Fynydd Epynt, cwblhawyd 'pentref' gwerth £7 miliwn ym 1990, Mae'r pentref hwn, sy'n cynnwys ffug eglwys a mynwent, yn cael ei defnyddio i 'hyfforddi' milwyr i ladd pobl mewn ardaloedd trefol. Mae'r pentref hwn yn debyg iawn i'r rheini a ddangosir ar y teledu lle mae milwyr yn lladd dinasyddion yn y gyn-Iwgoslafia.

Cynhelir gweithred bellach i alw sylw at filwreiddio'n cefn gwlad, sef taith gerdded a drefnir gan 'Crwydraid dros Heddwch' yng Nghastell Martin yn Sir Benfro ar ddydd Llun Gŵyl y Banc, 30ain Awst. ***Am fanylion pellach, ffoniwch Rod Stallard: 05505 260.***

## Cymorth Menwyod i'r gyn-Iwgoslafia

Ffurfiwyd y grŵp hwn gan fenywod ym mis Awst 1992 mewn ymateb i'r erchyllterau yn y gyn-Iwgoslafia. Mae'n anelu at greu cysylltiadau gyda menywod sy'n gweithio yn y mudiad heddwch yn y parthau hynny a'u cefnogi. Mae'r grŵp yn darparu cymorth dyngarol a chymorth meddygol i ffoaduriaid o fenywod. Danfonwyd dau gonfoi o Brydain eisoes a bwriedir danfon un arall yn yr hydref.

Mae arnom fawr angen arian a chyfraniadau o nwyddau i fynd ar y confoi nesaf. Yr ydym yn casglu, ymhlith pethau eraill, cadachau 'terry', brwsys a phâst dannedd, defnyddiau glanhau, bwyd protin uchel, diheintydd, cadachau misglwyf, dillad isaf, gwlân a gweill, a chondoms. Mae arnom angen arian hefyd i brynu moddion angenrheidiol.

Os gellwch gyfrannu unrhyw rai o'r pethau hyn neu ddanfon cyfraniad, ni waeth pa mor fychan, gallwn warantu y bydd eich rhoddion yn cyrraedd menywod anghennus.

*Am wybodaeth bellach: Cymorth Menywod i'r Gyn-Iwgoslafia, d/o Cathy Nowell, 1 Darren Terr., Graig Road, Trebannws, Gorllewin Morgannwg, SA8 4AT.*

## Gwell pen na phastwn

Byddwn fel arfer yn gofyn i chi ysgrifennu llythyr ar faterion niwclear. Y tro hwn, dyma gynnwys tri llythyr parod-i'w-hanfon ar y tudalennau canol – y cwbl sydd angen i chi ei wneud yw torri eich enw, rhoi'ch cyfeiriad, ac enw eich AS ar y llythyr i Dŷ'r Cyffredin, eu rhoi mewn amlenni a'u danfon! Beth allai fod yn haws?!

Wrth gwrs, mae llythyron unigol mewn llawysgrifen yn debyg o dderbyn mwy o sylw, felly, os oes gennych amser, efallai y carech eu hail-ysgrifennu yn eich geiriau eich hunain.

Ond beth bynnag wnawn chi, rhaid sicrhau bod ein neges yn cyrraedd y nod.

## Trawsdrosodd

Y diweddaraf ar ymgais Nuclear Electric i gynnal breichiau technoleg hesb cynhyrchu trydan drwy ynni niwclear.

Mae rheolwyr yr Atomfa yn dal i obeithio sicrhau trwydded gan yr Arolygaeth Gorsafoedd Niwclear i ailgychwyn cynhyrchu trydan o'u adweithyddion Magnox diffygiol. Mae cynnig ger bron Cyngor Dosbarth Meirionnydd i roi caniatad cynllunio i Nuclear Electric i losgi gwastraff niwclear 'lefel-isel' yn Nhrawsfynydd. Mae pwysau'n cael ei ddwyn ar y Cyngor i atal eu gwrthwynebiad i'r cynnig er osgoi ymchwiliad cyhoeddus. Os rhoddir caniatad ar gyfer y llosgi, yna gollyngir mwy byth o ymbelydredd i'r awyr uwch law Gogledd Cymru a'r cyffiniau.

*GWEITHREDU: Dylid danfon llythyron yn gwrthwynebu'r cynnig at: Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd a Thai, Caerpenlag, Dolgellau, Gwynedd. LL40 2YD.*



# DYDDIADAU

**Gorff 26-31** Gŵyl Heddwch De Morgannwg, Yr Ais, Caerdydd. Cystadlaethau cerddi a phosteri i blant, carafan, gweithgareddau drwy'r wythnos. Mae'r Diwrnod Adloniant, Sadwrn 31 yn cynnwys y Cwmni Addurno "'Swn i Ddim yn Sefyll Fanna, Fe Wlychwch Chi!" am 10.30 am, a "Marwolaeth drwy Chwisgi" am 2.30 pm! Hefyd, Gwobr Goffa Stella Jones am draethodau gan rai rhwng 14-19 oed.

**Gorff 31-Awst7** Y Steddfod Genedlaethol, Llanfair ym Muallt. Stondin CND Cymru – angen cymorth Cymry Cymraeg: Jan 0792 830330. Deiseb Llys Y Byd – casglu enwau: *Dave 0978 310491. Gweithgareddau.*

**Awst 5** 1963, arwyddwyd y Cytundeb Gwahardd Profion Rhannol gan yr Undeb Sofietaidd, yr UD a Phrydain. Ysgrifennwch at eich ASau i'w hatgoffa am y dyddiad hwn: DIM RHAGOR O BROFION NIWCLAER.

**Awst 5** Codi Arian: Ras 'Mae Trident yn Hwyaden Farw'. O'r Parc yn Llanfair ym Muallt: *Mary 0792 774687.*

**Awst 6** Dydd Hiroshima. 48 blynedd yn ôl. 'Nid anghofiwn'. 1. Gweithred ar y cyd â Chymdeithas y Cymod yn y 'Steddfod; Rod 05505 260 neu Nia 0978 860835. 2. Plannu Coed Coffa a dosbarthu taflenni gan CND Llandrindod. Croesewir cymorth: *Vera 0597 824367.*

**Awst 12** 1953 Ffrwydrwyd y Bom-H cyntaf gan yr Undeb Sofietaidd (gwel. Awst 5ed).

**Awst 12** Cyfarfod Ymgyrchoedd CND, Siop Heddwch, Caerdydd. *Croeso i bawb: Mary 0792 774687.*

**Awst 12** Menywod ar y Ffordd dros Heddwch yn ymweld â Thrawsfynydd.

**Awst 14** Y Dywysoges Diana i arolygu'r criw a'r llong danfor HMS Vanguard pan gomisiynir hi yn Barrow in Furness, Cumbria. Danfoner llythyron protest ati d/o Buckingham Palace, Westminster. (Pwynt i'w wneud – mae'r llywodraeth yn torri cyllideb Ymddiriedolaeth Terence Higgins o £300,000 dros y tair blynedd nesaf. Gwerir DENGWAITH hyn ar Trident BOB DYDD.)

**Awst 14/16** Menywod ar y Ffordd dros Heddwch yn ymweld â gorsaf llynges yr UD, Breudeth. *Jill: 05505 260.*

**Awst 16-21** Gwylnos y SAA, Llanisien, Caerdydd. Ymchwiliad i weithgareddau yn cynnwys symud defnyddiau peryglus yn y ffatri fomiau (gweler erthygl William Peden). ANGEN LLAWER O GYMORTH, os gwelwch yn dda. *Ffoniwch: Mary 0792 774687.*

**Awst 16/18** Menywod ar **y Ffordd dros Heddwch yn ymweld â Llanisien.**

**Awst 21** Stondin CND Llandrindod yn yr ŵyl Fictoraidd. *Cymorth neu nwyddau, cysyllter â Vera 0597 824367*

**Awst 30** Crwydro dros Heddwch, Castell Martin, Sir Benfro. *Cyslter â Rod 05505 260.*

**Medi 5** Cynghrair Wrth-Niwclear Cymru'n cwrdd am 11.00 yn y Ganolfan Technoleg Amgen, Machynlleth. Croeso i bawb. Cysyllter â CWNC drwy Blwch Post 1, Llandrindod, Powys neu ffoniwch 0982-570362.

**Medi 9** Cyfarfod Ymgyrchoedd y Siop Heddwch 6.00pm Croeso i bawb. **Mary 0792 774687.**

**Medi 16-19** 'Women Remember: Women in Conflict'. Arddangosfa yn Noc Albert, Lerpwl. *Gwybodaeth ar 051 727 6025.*

**Medi 18** (i'w gadarnhau): Cyfarfod CWNC am 11.00 yn Neuadd Sir De Morgannwg, Glanfa Iwerydd, Caerdydd. *Croeso i bawb; am gadarnhad a manylion, ffoniwch 0443 690419 neu 0443 690094.*

**Medi 18** Cyngor CND Cymru 10.45am, Tŷ Cwrdd y Cyfeillion, Temple St., Llandrindod, Powys. Croeso i aelodau, cynrychiolwyr grwpiau, ac aelodau cysylltiedig. Mynnwch wared o'r teimlad hwnnw o anallu, dewch i wneud rhywbeth cadarnhaol! *Cysyllter â Jill Stallard Ysgrifennydd Cyffredinol CND Cymru 05505 260.*

**Medi 18** Lawnsio Ymgyrch Achos Sylfaenol gan CND Cymru.

**Hydref 2** Prosiect Llys y Byd. Casglu enwau yn Wrecsam. *Cysyllter â Dave 0978 310491.*

**Hyd 3** 1952 Prawf Niwclear Prydeinig cyntaf, Awstralia. Ysgrifennwch ETO at eich AS a/neu'r Prif Weinidog ynglŷn â glanhau'r llygredd. Dim Mwy o Brofion!

**Hyd 7/8** 'Un Byd neu Ddim'. Cynhadledd y Biwro Heddwch Rhyngwladol. Tŷ Cwrdd y Cyfeillion, Euston Rd., Llundain. *Cysyllter â: Jill 05505 260.*

**Hyd 9** Rali dros Fyd Di-Niwclear. 1-6 pm, y Neuadd Ganolog, Llundain.

**CLUDIANT:**

**O Ogledd Cymru, ffoniwch Dave 09778 310497;**

**O'r Canolbarth a'r De, ffoniwch Mary 0792 774687.**


**Tach 5** Cofiwch ddanfon eich DEISEBAU GWAHARDD PROFION i'r Siop Heddwch, Mackintosh Place, Caerdydd CF2 4RQ.



## Cornel Ffeithiau Syfrdanol Ieuenctid CND Cymru

### Wyddech chi . . .

- Y gallech chi, am gost y rhaglen llongau tanfor Trident, sy'n debyg o fod yn costio £35,000,000,000 ar hyn o bryd, brynu rhyw 133,000,000,000,000 o jeli bebis?
- Bod jeli bebis yn well na llongau tanfor Trident oherwydd a) mae gwell blas arnyn nhw b) dŷn nhw ddim yn bygwth yr amgylchedd na heddwch y byd yn yr un modd?
- Hyd yn oed wedyn, mae Trident a chan mil biliwn o jeli bebis yn cymharu'n bur wael â phethau eraill y gallech eu prynu am £35 biliwn – fel swyddi, tai, bwyd a phethau eraill y gallai fod eu hangen ar bobl.
- Nad yw llond lori o jeli bebis mor beryglus â hynny (â siarad yn gymharol) ond, pe bai damwain ffordd, y gallai'r ffrwydron mewn llond lori o daflegrau Trident wasgaru plwtoniwm dros gylch 56 milltir o led?
- Y gall anadlu'r gronyn lleiaf o blwtoniwm olygu y byddech â thebygrwydd 50% o ddatblygu cancr yr ysgyfaint? (Gall bwyta jeli bebis, mewn cymhariaeth, bydru rhywfaint ar eich dannedd.)
- Tra nad oes cofnod cywir ar gael o effeithiau trawiad uniongyrchol llwyth o jeli bebis ar boblogaeth gyffredin, y lladdodd bom Hiroshima ar 6ed Awst 1945 80,000 ar unwaith bron, a 120,000 arall rhwng y dyddiad hwnnw a 1980?
- Bod gan bob un o bedair llong danfor Trident Prydain y gallu i beri difrod o'r un graddfa â 1,000 Hiroshima?
- Y gellwch chi helpu i atal Trident? Cysylltwch â ICND Cymru yn 4 Stanwell Road, Penarth, De Morgannwg CF6 2EA.



## Newyddion Gweithredu Heddwch

- Bydd y rhifyn nesaf o Heddwch yn ymddangos ar ffurf atodiad i Heddwch ym Tachwedd 1993
- Croeso i bob cyfraniad
- Danfonwch at Jane, 9 Heol Iscoed, Rhiwbeina, Caerdydd CF4 6NB
- Y dyddiad cau ar gyfer copi yw dydd Mercher 22ain Medi 1993
- Croesewir ynrhyw gymorth golygyddol

## CYMDEITHAS Y CYMOD YNG NGHYMRU

Galwn ar bawb sy'n deall bod 'Cymod' yn fwy na 'Heddwch, a 'Heddwch' yn fwy na chyflwr di-ryfel, i ymuno a ni yn ein hymdrech i orseddu 'Cymod' ymhob agwedd o fywyd ein cenedl. Manylion: Ysgrifennydd Cyffredinol, Ty Hen Gapel John Hughes, PONT ROBERT, Maldwyn, SY22 6JA.

Croeso i'n pabell ar y Maes am 12 o'r gloch, Awst 6ed (Diwrnod Hiroshima), i orymdeithio i babell CND Cymru, ac i Babell y Cymdeithasau erbyn 1 o'r gloch i drafod dyfodol safle filwrol Mynydd Epynt. Anerchir gan Angharad Tomos ac eraill.

**O'r de dwfwn i'r gogledd oer o'r Gronant i Blas Dinefwr, mae Uned Hel Straeon yn cyrraedd bob cornel**

**Y gorau o bob cwr o Gymru a thu draw Hel Straeon, Y Cnapan, Shotolau, a digonedd o raglenni dogfen**

Gronant, Caernarfon,
Gwynedd LL55 1NS.
Ffôn: (0286) 677595
Ffacs: (0286)678831

Canolfan Busnes Enfys
Phoenix Way Llansamlet
Abertawe SA7 9EH
Ffôn: (0792) 774838
Ffacs: (0792) 797748

# Ein bargen ddiweddaraf

Archebwyd y crys chwys CND Cymru hardd hwn yn arbennig ar gyfer y 'Steddfod. Os hoffech un, sgrifennwch ar fyrder ar Jan yn Masnacha CND Cymru gyda'ch archeb. Argreffir logo CND Cymru ar law chwith y crys chwys cotwm, esmwyth, moethus sydd ar gael mewn meintiau mawr neu enfawr, mewn du gyda logo gwyn, gwyrdd a melyn.

Am £12.95, mae'n rhatach na cynnyrch y rhan fwyaf o fudiadau eraill, Gallwn gynnig rhai meintiau plant hefyd (ffoniwch am fanylion). Ceir crys cotwm o'r un ansawdd yn dwyn neges y Ffordd Ddi-drais mewn glas, llwyd golau, melyn neu goch am yr un pris. Masnacha CND, 72 Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe, SA8 3AN.

## HELP!

Mae CND Cymru yn edrych am rywun yng nghylch Abertawe I WIRFODDOLI, i helpu gyda gwaith gweinyddol cyffredinol. Byddai gwybodaeth o eirbrosesu yn fendigedig . . . Cysyllter â Mary Jones 0792 774687

# Cysylltiadau

**Ysgrifennydd Cyffredinol CND Cymru: Jill Stallard, Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Dyfed SA20 0LR. Tel. 05505 260**

CYSYLLTIADAU YMGYRCHU

■ **Profion Niwclear, Lledaeniad Niwclear ac Ynni Niwclear:**
**Brian Jones**, 72 Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe SA8 3AN. Tel 0792 830330

■ **Diarfogi a Datblygiad, Addasu Amddiffyn, ac Ymgyrchu yn erbyn y Fasnach Arfau:**
**Mary Jones**, d/o Y Siop Heddwch, 56 Mackintosh Place, Caerdydd CF2 4RQ. Tel. 0222 489260

■ **Dadfilwreiddio Cymru:**
**Rod Stallard**, Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Dyfed SA20 0LR. Tel. 05505 260

■ **Hedfan Isel:**
**Gillian Metcalf**, Tŷ Yfory, Heol Llanfair, Llanbedr Pont Steffan SA48 8JZ. Tel. 0570 45576

■ **Ieuenctid CND:**
**Joe Castle**, 25 Aberystwyth Cres., Y Barri CF6 8EH. Tel. 0446 738020

MWY O WYBODAETH? UNRHYW SYNIADAU?

■ **Cysylltwch â'ch Is-gadeirydd CND Cymru lleol, os gwelwch yn dda:**


**Gogledd Cymru**
**Dave Andrews** 0978 310491

**Canolbarth**
**Ian Campbell** 0970 871360
**Medi James** 0970 832725
**Rod Stallard** 05505 260

**De Cymru**
**Ray Davies** 0222 886695

## Ras *'MAE TRIDENT YN HWYADEN FARW'*

**Dydd Iau 5 Awst 3 pm**
**Afon Gwy, Parc Llanfair ym Muallt**
**Tocynnau: £1 ar werth ym mhabell CND Cymru yn yr Eisteddfod**



__________________ AS,
Tŷ'r Cyffredin,
San Steffan,
Llundain.

Annwyl ____________,

Mae Mudiad Gwasanaethau Allforio Amddiffyn y llywodraeth yn cynnal ffair arfau anferth – 'árddangosfa Offer y Llynges Frenhinol a'r Fyddin Brydeinig 1993' – yn Aldershot o'r 5ed i'r 10fed o Fedi. Disgwyliant rhyw 20,000 o ymwelwyr – swyddogion llywodraethau tramor gan mwyaf – i fynychu'r arddangosfa i weld yr arfau a'r gwasanaethau a gynigir.

Ymddengys na ddysgasom ddim oll gan hanes diweddar. Tra bod Ymchwiliad Scott i werthu arfau i Iraq yn parhau, mae pawb yn cydnabod mai rhan helaeth o'r broblem yn Bosnia a Somalia yw bod yno ormod o arfau; ac eto, unwaith eto, defnyddir arian trethdalwyr i hybu gwerthiant arfau!

Carwn ofyn i chi beth yw eich barn ar y fasnach arfau yn gyffredinol ac, yn benodol:

- a ydych yn credu y dylai'r llywodraeth ddileu arddangosfa 1993 a drefnwyd gan DESO?
- os â'r arddangosfa yn ei blaen, a ydych yn credu y dylai'r llywodraeth gyhoeddi o flaen llaw restr o'r gwledydd a wahoddwyd i ddanfon cynrychiolydd i'r arddangosfa?

Diolch yn fawr am eich amser; edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir iawn,

Y Llysgennad Yoav Viran
Llysgenhadaeth Israel,
2 Palace Green,
Llundain W8 4QB.

Annwyl Syr,

Ysgrifennaf atoch ar ran Mordechai Vananu a gipiwyd, fel y gwyddoch, yn anghyfreithlon gan Heddlu Cudd Israel o Ewrop cyn ei ddedfrydu, ym mis Mawrth 1988, i 15 mlynedd o garchar am deyrnfradwraeth, am iddo ddatgelu manylion am raglen arfau niwclear Israel i'r wasg ryngwladol.

Credaf iddo gael ei gadw ers hynny mewn cell ar ei ben ei hun, o dan wyliadwraeth fideo, gyda golau trydan ynghynn am 23 awr y dydd, heb ddim ond un ymweliad awr o hyd bob mis gan ei deulu (o dan wyliadwraeth lem).

Mae hyn yn fy nharo i fel ymgais faleisus i dorri ysbryd Mordechai Vananu. Gweithredodd ar sail cred gref y dylai materion gwladwriaethol fod yn destun trafodaeth ymhlith y dinasyddion sydd yn ethol y llywodraeth. Gwyddai'r CIA eisoes am eich rhaglen niwclear, ac mae mwy o fanylion yn dod i olau dydd parthed eich cyd-weithio gyda De Affrica; mewn llawer ffordd, y cwbl a wnaeth Vananu oedd gwneud gwybodaeth a oedd eisoes yn hysbys i rai, ac a amheid gan lawer, yn gyhoeddus.

Gan hynny, fe'ch anogaf yn gryf iawn i ofyn i'ch llywodraeth i ailystyried ei ddedfryd ac amodau ei garcharu, a gobeithiaf y rhyddheir Mr Vananu yn fuan iawn.

Yr eiddoch yn gywir,